

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Syr Hugh Owen

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Gwella Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwysu ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Syr Hugh Owen ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £109,200

Yn Ysgol Syr Hugh Owen mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Sicrhau cyrsiau addas a chymwysterau i bob disgybl PYD
- Cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr PYD i gyrraedd lefel 5 yn y prif ddangosyddion CA3
- Grymuso trefniadau tracio dysgwyr PYD drwy archebu meddalwedd a chaledwedd addas
- Gwella presenoldeb dysgwyr ac yn benodol plant dan anfantais drwy gyflogi swyddog presenoldeb

- Sicrhau cymwysterau L2 i ddysgwyr PYD drwy gynnig cwrs Workskills Lefel 2 a chyflogi athrawes i ddysgu ac annog y dysgwyr
- Cynyddu staffio yn y pynciau craidd
- Sicrhau amser arweinwyr blwyddyn i fentora thargedu dysgwyr PYD
- Gwersi a sesiynau ychwanegol Ôl ysgol ac ar benwythnosau mewn mathemateg, Saesneg a Chymraeg.
- Prynu arbenigwyr a chwmni codi hyder i weithio gyda disgyblion i anelu'n uwch.
- Sicrhau fod gan bob disgybl offer angenrheidiol mathemateg ac iaith
- Archebu mwy o i pads ac offer digidol
- Gwella darpariaeth astudiaeth annibynnol
- Sicrhau clybiau adolygu
- Blaenoriaethu cynllun Learning Signatures
- Gwella darpariaeth ac adnoddau yn ein canolfan cynhwysiad
- Talu am weithgareddau gan gynnwys gwersi offerynnol a chwaraeon

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.